

Grym y Gair, a'r Nerth a Berthyn Iddo: Diwygiad Crefyddol 1904-05 gan Dafydd Guto

(Cipolwg ar ffynonellau sy'n croniclo digwyddiadau a phrofiadau)

Troir ffefuriau yn gyfarfodydd crefyddol, gwagheir tafarnau... a chyffroir ardaloedd cyfain.

Y *Cymro* Rhagfyr 1af, 1904.

Casglu Ffynonellau o Newyddiaduron

Mr. Evan Roberts, y Diwygiwr: Dyma'r gwr ieuanc sydd yn ysgubo popeth o'i flaen y dyddiau hyn yn y Deheudir... Dywedir nad yw'n feddyliwr cryf nac yn llefarwr huawdl, ac nid oes dim neillduol yn ei bregethau. Ni cheisia ychwaith ddychrynu ei wrandawr trwy bregethu ar gosbedigaeth pechod, y farn, a thrueni tragwyddol. Cariad Crist at fyd colledig ydyw baich ei genadwri, a chreda fod digon o rinwedd yn hwnnw i ddenu serchiadau pechaduriaid. Pregetha yn fyr ac yn syml, ond mae ei ffydd yn nylanwad distaw yr Ysbryd Glân yn angerddol.

Y *Cymro* Tachwedd 17eg, 1904.

Adroddir yn y Wasg Ionawr 3ydd, 1905 fod chwaer Evan John Roberts 'y Diwygiwr' wedi ymuno â'r ymgyrch. Athrawes ysgol yng Ngwerton ydoedd hi. Nid yw'r *Herald Cymraeg* yn datgelu os yw hi wedi rhoi'r gorau i'w swydd.

Bu digwyddiad hynod yng Nghaerdydd yn un o gyrrdau'r diwygiad. Rhoes dyn oedd yn y gynulleidfa becyn o wenyw yn un o'r diwygyr, gan ddywedyd ei fod wedi bwriadu ei gymeryd, ond denwyd ei'r cyfarfod ac yno argyhoeddwyd ef.

Yr *Herald Cymraeg* Ionawr 17eg, 1905.

Ryw naw mlynedd yn ôl collwyd deial... o westy yn y lle hwn, (sef Tylorstown), a'r wythnos hon dychwelwyd y ddeial... Yr oedd yr un a'i lladratodd wedi dod dan ddylanwad y Diwygiad.

Brydnawn Sadwrn, tra 'roedd clybiau o Dreffynnon a Bwcle yn chwarae peldroed yn Nhrefynnol, aeth nifer o ddiwygyr i gynnal cyfarfod gweddi wrth fynedfa i'r cae. Ymddygyd yn hollol barchus atynt, ond ni chymerwyd ond ychydig sylw ohonynt.

Yr *Herald Cymraeg* Chwefror 28ain, 1905.

Erbyn diwedd y mis bach ymddengys adroddiadau yn y Wasg Gymreig sy'n datgan fod 'Y Diwygiwr' yn wael, ond erbyn dechrau mis Mawrth ail-ymddengys o'i 'unigedd', chwedl y newyddiadurwr craff, ac erbyn Ebrill 1leg y mae ar ymweliad â Lerpwl, Lloegr, ble y mae hypnotydd yn ceisio cael y gora' ohono ac yn methu'n drybeillig. Erbyn Ebrill 25ain, bu'n rhaid i E. J. R. orffwyso cyn ymweld â Llanrwst, Bethesda, a Ffestiniog. Yn *Yr Herald Cymraeg* Mawrth 14eg 1905 cyhoeddai rhai o lythrau Mr. Evan J. Roberts, sy'n ymdrin â 'galluoedd y tywyllwch.' Yr wythnos ganlynol yn yr un newyddiadur cynhwysir proffwydoliaethau'r 'Diwygiwr' ynghylch yr amserau dychrynlyd sydd ar ddyfod. Yn nechrau mis Mai 1905 y mae yn bwrw amser yng Nghapel Curig. Poenir am gyflwr ei iechyd, ond mae grym y Gair wastad hefo fo, a nerth yr Ysbryd Glân. A i Feddgelert ac annerch plant yr Ysgol yno. Mae'n gadael Capel Curig gan deithio i Fôn. Ar ymweliad â gweryll milwrol ym Morfa Conwy ym mis Mehefin, 1905, y mae'n llwyr argyhoeddi dau ar hugain o filwr fod Cariad a Graslonorwydd yn perthyn i Dduw Dad. Deil cyfarfodydd crefyddol cynhyrfus i ddigwydd ar y Fam Ynys ac adroddir yn gryno yn *Yr Herald Cymraeg* Mehefin 20fed fod 'Y Diwygiwr' wedi cyfarfod Mr. Lloyd George a Mr. D. R. Daniel. Yn gynnar ym mis Gorffennaf y flwyddyn

1905 daw ei genhadaeth ym Môn i ben.

Llanfair: Ynys Môn: Mae y bechgyn ieuainc wedi eu llyncu i fyny gymaint gan y Diwygiad yma, fel y torasant i fyny glwb y beldroed.

Yr *Herald Cymraeg* Gorffennaf 4ydd, 1905.

Yn y flwyddyn 1912, tra'n byw yn Nghaer Lyr, cyhoeddodd Evan John Roberts lyfryn o'i eiddo, sef *Gwasanaeth a mitwriaeth ysbrydol*. Tybed a ail-gyhoeddir y llyfryn hwn ac eraill o'i weithiau eleni yng nghanmlwyddiant dathlu Diwygiad 1904-05? Cyfansoddodd E. J. Roberts yn ogystal nifer o gerddi ac emynau, 'a cheir detholiad o'r rheini yn ei gofiant,' ebe'r diweddar Parchedig Gomer Morgan Roberts (yn) *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951-1970*. Cyhoeddwyd hefyd gasgliad o'i emynau yn Aberdar yn y flwyddyn 1905.

Un o'r Pethau a Ddaeth yn Sgîl Diwygiad Crefyddol '04 ac '05 ydoedd Cyhoeddi Llyfrau, Erthyglau - Dyma Rai Ohonynt.

Evan John Roberts, (1878-1951), 'Y Diwygiwr'.

Cenhadwr Cristionogol ydoedd. Mab Henry a Hannah Roberts, a aned 8fed Mehefin 1878 ym Mwlchmynydd, Casllwchwr, Morgannwg. Cyn-löwr ac un o gâi brofiadau ysbrydol. Yn niwedd 1903 dechreuodd bregethu ym Moriah, Casllwchwr ac yno fe'i claddwyd ym meddrod y teulu yn y flwyddyn 1951. Ddwy flynedd yn ddiweddarach dad-orchuddiwyd cofeb iddo o flaen capel Moriah.

Rhai cylchgronau, llyfrau, a newyddiaduron

AP GWILYM, Ifor. *Yr hen bwerau: detholiad o ddyddiadur dychmygol Evan Roberts y Diwygiwr*, Abertawe: Christopher Davies, 1981.

Diwygiwr Newydd. *Y Cymro* Tachwedd 17eg, 1904 t.5 col.3.

Mr. Evan Roberts, y Diwygiwr. *Y Cymro* Rhagfyr 15ed, 1904 t.5 col.1-2.

GIBBARD, Alun. Evan Roberts, a'r 'hen bwerau.' *Y Cylchgrawn Efengylaidd* (19/1) Awst-Medi 1980 t.17.

GIBBARD, Noel. Evan Roberts a dwylo benth. *Y Cylchgrawn Efengylaidd* (17/6) Tachwedd 1978 tt.168-170.

GRIFFITH, E.H. Evan John Roberts. *Yr Eurgrawn* Tachwedd 1954 tt.292-296.

HUMPHREYS, E.M. *Gwŷr enwog gynt: argraffiadau ac atgofion*. Yr ail gyfres. Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth, 1953 tt.100-109.

PHILLIPS, D.M. *Evan Roberts a'i waith*. Dolgellau: E.W. Evans, 1912; 10fed argraffiad 1924.

ROBERTS, Gomer Morgan. Evan John Roberts (1878-1951). *Y Bywgraffiadur Cymreig 1951-1970*. (Gol.) E.D. Jones a Brynley F. Roberts. Llundain: Ar ran y Cymmrodorion, 1997 tt.175-176.

SHELDRIK, D. *Evan Roberts: arholiad, gwerthfawrogiad ac amddifyniad*. Llundain: Western Mail Cyf, 1905.

THOMAS, Edward, (Idriswyn). *Y diwygiad a'r diwygiwr: taith gyntaf Evan Roberts*. Caerdydd: Evans a Williams Cyf, 1905; cynhwysir erthyglau gan J. Cynddylan Jones, H. M. Hughes ac E. Ress, (Dyfed).

WILLIAMS, J. S. Evan Roberts ac R. B. Jones. *Barn* (277) Chwefror 1986 tt.48-49; llythyr.

WILLIAMS, R.O. 'Cafio y gwaed': cennadwri Mr. Evan Roberts, y diwygiwr: Sir Fôn, tonau ac

emynau ar yr uchod, gyda rhai darnau eraill; y gerddoriaeth gan R.O. Williams; y geiriau gan Dyfed, Job, Anthropos, ac eraill. Llangefni: W.O. Jones, 1906.

Mae 'na gyfrol na chynhwyswyd isod; mae'n lond dwrn o ran maint ac yn dwyn y teitl *Hymnau y Diwygiad, sef Casgliad o'r Hymnau y rhai a genir yn y cyfarfodydd diwygiadol yn Nghymru*. Bethesda: R. Jones, d.d.; 16 t. Canfyddwyd y llyfryn mewn blwch a gynhwysai lyfrau a phamffledi sy'n ymwneud â Diwygiad '04 ac '05. Gwyddys fod cyhoeddwr ac argraffwr yn dwyn yr enw R. Jones, Bethesda, a oedd yn bodoli yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Un llyfr a gyhoeddwyd ganddo oedd *Rhyfeddodau Natur a Chelfyddyd, sef Cyfeithiadau gan mwyaf o weithoedd y prif awduron Seasonig*, 454 t. ac a argraffwyd yn y flwyddyn 1859. Tybed a ydyw'r *Hymnau...* R. Jones, Bethesda, d.d. yn perthyn i gyfnod mwy diweddar nag 1904-05? Tybed all ein darllenwyr roddi goleuni pellach ar y mater?

Rhai llyfrau, a phamffledi, sy'n ymdrin â'r Diwygiad ym mlyneddodd '04 ac '05.

Adlais y Diwygiad: casgliad o emynau a thonau at wasanaeth Cymanfa a gynhelir yng Nghapel Disgwyllfa, Deiniolen. Lerpwl: Hughes a'i Fab, 1945.

Y Diwygiad a'r Diwygyr: hanes toriad gwawr Diwygiad 1904-1905. Dolgellau: E.W. Evans, 1906.

Y Diwygiad crefyddol yn Rhosllannerchrugog: 1904-05. Rhosllannerchrugog: R. Mills a'i feibion, 1905.

EVANS, Eifion, *Diwygiad crefyddol 1904-05*. Pen-y-bont-ar-ogwr: Bryntirion, 2002.

EVANS, Sidney
ROBERTS, Gomer. *Cyfrl Goffa Diwygiad 1904-1905*. Caernarfon: Llyfrfa'r Methodistiaid Calfinaidd, 1954.

GIBBARD, Noel A. *Caniadau'r Diwygiad: golwg ar emynau, penillion a thonau Diwygiad 1904-05*. Pen-y-bont-ar-ogwr: Bryntirion, 2003.

GRIFFITH, Thomas Evan, (Beren). *Hosannah Mynydd Seion: sef emynau a chaniadau y diwygiad (ar fesurau adnabyddus)... at wasanaeth aelwydydd a chyfarfodydd crefyddol*. Pwllheli: Richard Jones, 1905.

JONES, Dafydd Glyn. *Seneddau a sofreniaeth: neu diwygiad '04*. Talybont: Y Lolfa, 1998.

JONES, Henry. *Y Diwygiad: a'r hyn eill ddod ohono: araeth*. Caernarfon: Swyddfa'r Herald/ Y Cyhoeddwr Cymreig, 1905.

JONES, Robert Tudur. *Tân yn Eifionydd*. Caernarfon: Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, 1990.

MORRIS, Haydn (Gol.); Cyfieithiad Cymraeg (gan) Ddafydd Owen, a Brynallt Williams. *Gemau'r Diwygiad: detholiad o emynau poblogaidd y Diwygiad*. Llanelli: Eluned Morris/dosbarthwyd gan Eilir Davies, Caerfyrddin, 1982.

PARRY, Wynne. *Adlais y diwygiad: pregethau gan Weindogion Methodistiaid Calfinaidd Arfon*. Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwr Cymreig, 1907.

PRITCHARD, T. *Y Diwygiad a'r hyn ddylai ei ddilyn*. Yr awdur: 1906.

SAUNDERS, Sarah M. *Y Diwygiad ym Mhentre Alun gydag ysgrifau eraill*. Wrecsam: Hughes a'i Fab, 1907.

STEAD, William Thomas. *Y diwygiad yn y gorllewin: adroddiad o ffeithiau*. Caernarfon: Cwmni y Cyhoeddwr Cymreig, 1905.

WILLIAMS, John Henry. *Ar ei ben bo'r goron:*